# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
## Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Lindsay Foyster | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adam Marshall | Aelod-gyflogai etholedig (o eitem 3; wedi'i esgusodi o'r penderfyniad yn eitem 10) |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol |
| Anne Beegan | Aelod-gyflogai (wedi'i hesgusodi o'r penderfyniad yn eitem 10) |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| Elinor Gwynn | Aelod anweithredol |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Kevin Thomas | Aelod-gyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) (wedi'i esgusodi o'r penderfyniad yn eitem 10) |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| **Yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC) (ac eithrio'r penderfyniad yn eitem 10) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (EDAS) (eitemau 1-10, ac eithrio'r penderfyniad yn eitem 10, ac eitem 14) |
| Amanda Jenkins | Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd (eitem 4) |
| Ceri Hughes | Rheolwr y Rhaglen Newid (eitem 4) |
| Laurie Davies | Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitem 13) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitem 4) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitemau 10,11 a 12, ac eithrio'r penderfyniad yn eitem 10) |
| Catrin Davies | Uwch Weithredwr ymchwil, Beaufort Research (eitem 14) |
| Katherine Drysdale | Arbenigwr Cyfraith a Moeseg (cofnodion) |
| **Yn Arsylwi:** | |
| Gareth Phillips | Pennaeth Cyfathrebu (eitemau 1-8) |
| Jayana Finlay | Hyfforddai Archwilio (eitemau 1-8, eitem 14) |
| Martin Gibson | Arweinydd Archwilio (eitemau 1-8, eitemau 11, 12 a 14) |
| Andrew Clark | Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (eitemau 1-10) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1. | Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb |
| 2. | Penodi'r aelod-gyflogai etholedig |
| 3. | Datganiadau o fuddiant |
| 4. | Trafodaeth strategol: y strategaeth bum mlynedd |
| 5. | Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol |

# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
## Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 6. | Y diweddaraf gan y Cadeirydd |
| 7. | Adolygiad o'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 09 a 10 Mehefin 2021 |
| 8. | Adolygiad o'r traciwr gweithredu |
| 9. | Adroddiadau gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 27 Mai 2021 a 13 Gorffennaf 2021 |
| 10. | Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth |
| 11. | Adrodd ar Berfformiad |
| 12. | Strategaeth Amcangyfrif a Ffioedd |
| 13. | Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch 2020-21 |
| 14. | Y Diweddaraf ynghylch Cyfathrebu: ymgysylltu â rhanddeiliaid |
| 15. | Unrhyw fusnes arall |
| 16. | Adolygiad o'r flaenraglen waith |
| 17. | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 18. | Dyddiad y cyfarfod nesaf |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| 1.2 | Cytunodd yr EDCS i gynhyrchu'r blog ar gyfer y cyfarfod. | EDCS |
| **2.** | **Penodi'r aelod-gyflogai etholedig** | |
| 2.1 | Yn rhinwedd ei swydd yn Swyddog Etholiadau, cyflwynodd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol bapur yn cwmpasu canlyniad ethol aelod-gyflogeion i'r Bwrdd. Esboniodd ei fod yn fodlon â'r modd y cynhaliwyd yr etholiad a'r bleidlais, ac nad oedd unrhyw heriau wedi'u cyflwyno. | |
| 2.2 | Oherwydd argymhelliad y Swyddog Etholiadau, penderfynodd yr aelodau anweithredol benodi Adam Marshall i'r Bwrdd yn unol â chanlyniad y bleidlais. | |
| **3.** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 3.1 | Croesawodd y Cadeirydd Adam Marshall i'r cyfarfod. | |
| 3.2 | Datganodd aelod-gyflogeion etholedig y Bwrdd (Kevin Thomas, Adam Marshall ac Anne Beegan) fuddiannau yn eitemau 9 (Adroddiadau Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn ymwneud â'r adolygiad o deithio a chynhaliaeth a'r strategaeth gyflogau) ac eitem 10 (yr adolygiad o deithio a chynhaliaeth). Nododd y Bwrdd y byddai aelod-gyflogeion etholedig y Bwrdd yn cymryd rhan yn y trafodaethau sy'n ymwneud â'r adolygiad o deithio a chynhaliaeth | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | i gefnogi ystyriaeth o'r eitem ar sail gwybodaeth, ond byddant yn cael eu hesgusodi o'r penderfyniadau ar yr eitem hon oherwydd gwrthdaro buddiannau rhagfarnus. | |
| 3.3 | Nododd y Bwrdd fod gan bob aelod o staff a oedd yn bresennol fuddiannau yn eitemau 9 a 10 (strategaeth gyflogau a'r adolygiad o deithio a chynhaliaeth). Byddai'r arsylwyr yn gadael y cyfarfod ar gyfer eitemau 9 a 10. Byddai'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol yn ystod y drafodaeth ar yr eitem deithio a chynhaliaeth i ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi, ond byddent yn gadael tra bod aelodau'r Bwrdd yn ystyried y penderfyniadau angenrheidiol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn parhau i gofnodi'r eitemau ac yn ymdrin ag unrhyw faterion llywodraethu sy'n codi. | |
| **4.** | **Y strategaeth pum mlynedd** | |
| 4.1 | Cyflwynodd yr EDCC a’r ACC weithdy i aelodau'r Bwrdd ystyried a chyfrannu at y strategaeth pum mlynedd a oedd yn cael ei datblygu gan y Tîm Arwain Gweithredol (ELT). Roedd eu cyflwyniad yn:<br>• atgoffa’r aelodau o’r diben a’r uchelgeisiau, a oedd yn parhau i fod yn addas ar gyfer dyfodol Archwilio Cymru ac y gwnaed cynnydd yn unol â nhw;<br>• esbonio ei bod yn amserol ar hyn o bryd yn nhymor ACC, yng nghyd-destun newidiadau i'r amgylchedd gweithredu a gydag uwch dîm arwain newydd ar waith i ddatblygu blaenstrategaeth â naratif cliriach ar gyfer ffurf Archwilio Cymru yn y dyfodol a 'map ffordd' tymor hwy ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau. | |
| 4.2 | Esboniodd yr EDCC y gwaith yr oedd yr ELT wedi'i wneud i adolygu'r uchelgeisiau a'r themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau'n llawn. Cyflwynodd y tri maes allweddol ar gyfer newid yr awgrymodd yr ELT y byddent yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer blaengynllunio ac y gellid mapio nodau yn unol â nhw:<br>• **Rhaglen archwilio** fwy integredig, strategol a deinamig;<br>• Dull mwy penodol ac effeithiol o **gyfathrebu a dylanwadu;** a<br>• Model wedi'i ail-rymuso ar gyfer **arweinyddiaeth ar y cyd** ar draws y sefydliad. | |
| 4.3 | Amlinellodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol y meysydd newid allweddol yn fanylach, gan dynnu sylw at:<br><u>Y Rhaglen archwilio</u>:<br>• rhaglen gyfannol o waith lleol a chenedlaethol, gan ddefnyddio sgiliau staff yn llawn ar draws Archwilio Cymru;<br>• archwilio'r pynciau cywir ar yr adeg gywir gan ddefnyddio ymchwil a datblygu canfyddiadol ac ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu; a | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • darparu effaith a mewnwelediad gwerthfawr i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.<br>Cyfathrebu a Dylanwadu<br>• sefydlu Archwilio Cymru yn ffynhonnell fewnwelediad ddibynadwy a pherthnasol;<br>• datblygu effaith ein gwaith o ran ei amseru a'i gyflwyno;<br>• archwilio cyfleoedd i ymgysylltu a dylanwadu; a<br>• chwarae rhan amlycach wrth ddylanwadu ar ffurf archwilio cyhoeddus yn y dyfodol.<br>Arweinyddiaeth ar y Cyd<br>• cefnogi a datblygu arweinwyr a rheolwyr pobl i gydweithio'n effeithiol i arwain newid a datrys problemau;<br>• mabwysiadu dull mwy ystwyth o reoli perfformiad drwy ddull aeddfed sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan nodi'r bobl a'r sgiliau technegol sydd eu hangen yn y sefydliad; a<br>• grymuso staff i wneud penderfyniadau ar y lefel gywir ac yn gyflym. | |
| 4.4 | Cymerodd aelodau'r Bwrdd ran mewn sesiynau trafod mewn dau grŵp i ystyried:<br>Sesiwn 1: y penawdau o ran barn rhanddeiliaid ar Archwilio Cymru yn 2027; a<br>Sesiwn 2: eu hymresymu o ran casgliadau'r rhanddeiliaid; beth oedd ar waith a arweiniodd at y casgliad; a'r dystiolaeth neu'r rheswm dros y penawdau.<br>Rhoddodd pob grŵp grynodeb o gasgliadau eu trafodaethau y byddai'r ELT yn cyfeirio ato wrth gwblhau'r strategaeth. | |
| 4.5 | Nododd y Bwrdd fod lefel gref o debygrwydd rhwng themâu'r ddau grŵp ac anogodd yr ELT i ystyried:<br>• croesgyfeirio'r camau newid a nodwyd yn y gofrestr risg strategol a'r fframwaith sicrwydd i nodi unrhyw feysydd risg nad ymdriniwyd â nhw hyd yma;<br>• y gweithgareddau a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu meysydd fel gallu ymchwil a meysydd eraill o arbenigedd penodol;<br>• dull mwy rhagweithiol o gynyddu allgymorth i gynulleidfaoedd newydd neu grwpiau gwahanol o fewn rhanddeiliaid presennol;<br>• nodi'n glir yr amcanion a'r gweithgareddau a fyddai'n sbarduno cyflawni'r nodau strategol yn y cynllun;<br>• pa weithgaredd fyddai'n cael ei flaenoriaethu neu ei ddadflaenoriaethu wrth fwrw ymlaen â'r tri maes newid â blaenoriaeth allweddol a'u hadnoddu;<br>• mabwysiadu egwyddorion y strategaeth yn gynnar i lunio ei ddull gweithredu a chynnal momentwm; | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • sut i gyfathrebu'n ystyrlon â staff a rhoi cyfle i staff gyfrannu at y strategaeth i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl iddi gan y staff a pherchnogaeth ohoni; a<br>• chyfleoedd i aelodau'r Bwrdd gymryd rhan weithredol yn y broses gyfathrebu ac ymgysylltu. | |
| 4.6 | Amlinellodd yr EDCC yn fyr y camau nesaf a fyddai'n cynnwys cyflwyno fersiwn derfynol o'r strategaeth i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi. | EDCC |
| 4.7 | Diolchodd y Bwrdd i'r ELT am ei waith yn datblygu'r strategaeth ac am drefnu gweithdy cynhyrchiol a oedd wedi rhoi cyfle i aelodau gyfrannu. | |
| **5.** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |
| 5.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei ddiweddariad a thynnodd sylw at y canlynol:<br>• roedd pwyllgorau'r Senedd wedi'u sefydlu ac roedd cyfarfodydd rhagarweiniol wedi dechrau;<br>• roedd dull gofalus yn cael ei ddefnyddio i ailagor y swyddfeydd a fyddai, yn amodol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, wedi cynyddu capasiti yn ystod mis Awst ac ar gael i'r holl staff, gan gynnwys y garfan o hyfforddeion newydd a fyddai'n bresennol i gael eu sefydlu; a<br>• Dyfarnwyd MBE i Isobel Everett yn rhestr anrhydeddau’r Frenhines ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd Bwrdd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth. | |
| 5.2 | Trafododd y Bwrdd pa un a allai'r rhaglen newid fod â swyddogaeth integredig wrth gyflawni'r strategaeth 5 mlynedd yn hytrach na gweithredu fel rhaglen ar wahân. Esboniodd y rheolwyr fod y Rhaglen Newid wedi casglu ynghyd brosiectau hirdymor amrywiol a byddai’r gwaith o symud ymlaen yn cwmpasu ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau allweddol sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau. Nododd y Bwrdd fod y rheolwyr yn adolygu'r gweithgareddau newid a oedd yn mynd rhagddynt gyda'r bwriad o ddatblygu dull mwy cyfannol. | |
| 5.3 | Mewn ymateb i gwestiwn, amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol yn fyr ei ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) i archwilio’r defnydd o’r egwyddor datblygu cynaliadwy gan Weinidogion Cymru wrth bennu eu hamcanion llesiant. Esboniodd fod ganddo ddyletswyddau tebyg mewn cysylltiad â chyrff eraill, a byddai thema yn yr Amcangyfrif o adnoddau'r gwaith hwn a gwaith arall o dan y Ddeddf, lle byddai gan y Bwrdd swyddogaeth wrth symud ymlaen. | |
| 5.4 | Trafododd y Bwrdd y broses o ddychwelyd i'r swyddfeydd ac ystyriodd effaith amgylchedd gwaith mwy hylan ar staff. Nododd y Bwrdd y byddai ymdeimlad o golled gan y rhai sy'n dychwelyd i amgylchedd gwahanol ond bod angen newidiadau i sicrhau diogelwch y staff. Esboniodd y rheolwyr y byddai mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | wrth i gapasiti gynyddu ac, yn amodol ar fodloni gofynion diogelwch, y byddai lleoliadau eraill yn cael eu treialu maes o law. | |
| 5.5 | Nododd y Bwrdd fod ymatebion yr arolwg pwls yn dangos bod cyfran o staff yn parhau i deimlo bod ganddynt ormod o waith. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod ymatebion yr arolwg yn adlewyrchu'r darlun llawn ar draws Archwilio Cymru a bod amrywiaeth o ddulliau addas ar waith i wirio llesiant staff. Esboniodd y rheolwyr y canlynol:<br>• roedd nifer yr ymatebion i'r arolwg pwls wedi gostwng ers y llynedd, ond roeddent yn sefydlog;<br>• roedd y duedd ar bwysau llwyth gwaith ychydig ar i lawr, a allai adlewyrchu bod rhai archwiliadau wedi'u cwblhau;<br>• roeddent yn gweithio'n agos gyda rheolwyr llinell i fonitro llesiant a gofynnodd i reolwyr llinell ymgysylltu'n rheolaidd â staff i reoli llwyth gwaith ac atgyfnerthu'r negeseuon ar 'hunan, teulu, gwaith'; ac<br>• roedd yr wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio wedi'i rhoi i staff y Gwasanaethau Archwilio er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch adnoddau. | |
| 5.6 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **6.** | **Y Diweddaraf gan y Cadeirydd** | |
| 6.1 | Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar byr ynghylch ei gweithgareddau ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin a oedd yn cynnwys:<br>• cyfarfod ag Adran Sicrhau Ansawdd yr ICAEW yn rhinwedd ei swyddogaeth yn gyswllt Bwrdd ar gyfer ansawdd archwilio – byddai'n trefnu i friff ar ansawdd archwilio gael ei roi yn llyfrgell gyfeirio y Bwrdd;<br>• cyfarfodydd gyda Saxton Bamfylde ar gyfer ei chyfweliad adolygu effeithiolrwydd ac i drafod y themâu cychwynnol sy'n deillio o'r adolygiad; a<br>• chyfarfod rhagarweiniol â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid. | LF |
| 6.2 | Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf. | |
| **7.** | **Adolygiad o'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd ar 09 a 10 Mehefin 2021** | |
| 7.1 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 09 a 10 Mehefin, gan gynnwys y gwelliannau a draciwyd, yn gofnod cywir. | KD |
| **8.** | **Adolygiad o'r traciwr gweithredu** | |
| 8.1 | Nododd y Bwrdd y diweddariadau i'r traciwr gweithredu. | |
| **9.** | **Adroddiadau gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 27 Mai 2021 a 13 Gorffennaf 2021** | |
| 9.1 | Gadawodd yr arsylwyr staff y cyfarfod. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 9.2 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol ei hadroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021. | |
| 9.3 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad, a oedd yn ymdrin â materion i'w hystyried gan y Bwrdd o dan eitem 10. | |
| 9.4 | Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2021, yr oedd hi wedi'i gadeirio, a thynnodd sylw, yn benodol, at y dull agored ac adeiladol o ymdrin â'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd ar amcanion a phroses arfarnu'r uwch dîm. | |
| 9.5 | Ystyriodd y Bwrdd yr adolygiad o'r polisi gweithio'n gallach ac roedd yn awyddus i ddeall y disgwyliadau ar gyfer rheolwyr llinell a oedd â swyddogaeth ganolog wrth weithredu'r polisi'n effeithiol. Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am drafodaethau'r Pwyllgor a oedd wedi crybwyll:<br>• yr angen i gefnogi a gwella sgiliau rheolwyr llinell;<br>• darparu cymorth ychwanegol wrth i ffyrdd newydd o weithio ymwreiddio;<br>• yr amser cynyddol y byddai angen ei dreulio i reoli a chefnogi; a<br>• chydnabod pwysigrwydd rheolaeth dda wrth symud ymlaen.<br>Sicrhawyd y Bwrdd bod y rheolwyr yn cydnabod y gwahanol ofynion ar reolwyr llinell wrth i'r sefydliad newid ei ffyrdd o weithio. | |
| 9.6 | Trafododd y Bwrdd y diwygiad arfaethedig i'r polisi amser teithio a nododd fod y cyngor cyfreithiol wedi bod yn ddigamsyniol a byddai gostyngiad posibl mewn adnoddau pe bai teithio'n digwydd yn ystod amser gwaith. | |
| 9.7 | Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:<br>• diwygio'r cynllun arfarnu perfformiad ar gyfer 2022 i ddileu'r meini prawf asesu a fodlonwyd yn rhannol a chynnwys cwestiwn llesiant yn yr hunanasesiad gwerthuso; ac<br>• adolygiad llawn o'r cynllun arfarnu perfformiad yn 2022-23.<br>Cymeradwyodd y Bwrdd y dull gweithredu a gynigiwyd ar gyfer Adnoddau Dynol er mwyn:<br>• cyflawni'r cynllun arfarnu yn ei fformat presennol yn 2022, nes bod rheolwyr llinell yn gwella sgiliau ac yn gallu darparu cyfarfodydd gwirio byr ystyrlon ac o ansawdd;<br>• gwella sgiliau rheolwyr i ganolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a chefnogi eu timau; a<br>• chaffael sefydliad allanol i gynnal 'archwiliad trefniadaeth iach' i roi darlun o aeddfedrwydd diwylliannol Archwilio Cymru i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf.<br>Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd: | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • y strategaeth gyflogau, i'r Archwilydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ei dilyn mewn trafodaethau cyflog gydag undebau llafur;<br>• y Strategaeth Lesiant ddrafft;<br>• Polisi Cynllunio a Gweithdrefnau'r Sefydliad a'r Gweithlu, yn amodol ar fân ddiwygiadau a chywiriadau, gydag adolygiad pellach o ddarpariaethau yn ymwneud â'r pwll adleoli ac amserlenni diogelu cyflogau i'w gynnal ymhen 12 mis;<br>• parhau i ddefnyddio'r polisi Gweithio'n Gallach i ategu Prosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol a datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf, gyda'r adran AD i gysylltu â PHAWB i ymgorffori Gweithio'n Gallach yn Amcanion newydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a pharhau i fonitro effaith y polisi gyda'r undebau llafur, ac adolygiad pellach o'r Polisi i'w gynnal mewn blwyddyn arall; a'r<br>• gwaith o ddiwygio'r polisi amser teithio, (i ddileu'r gofyniad i staff deithio am hyd at awr bob ffordd yn eu hamser eu hunain) i'w weithredu yn dilyn pleidlais staff ar y cynigion teithio a chynhaliaeth. | |
| 9.8 | Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei drafodaeth ar gapasiti Adnoddau Dynol, lle yr oedd yn amlwg bod tîm llai yn ymdrin â llawer iawn o waith ac nad oedd dyddiad diwedd yr absenoldebau yn hysbys. Fodd bynnag, sicrhawyd y Pwyllgor gan ddull y rheolwyr o fonitro capasiti'r tîm a'r risgiau cysylltiedig yn ofalus. | |
| 9.9 | Nododd y Bwrdd y materion eraill yn yr adroddiad. | |
| **10** | **Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth** | |
| 10.1 | Trafodwyd yr eitem hon yn breifat am resymau cyfrinachedd a sensitifrwydd masnachol ac i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes yn effeithiol. Ystyriodd y Bwrdd argymhellion grŵp gorchwyl a gorffen Teithio a Chynhaliaeth a chyngor yr ELT ar yr argymhellion a'r dewisiadau polisi cysylltiedig a daeth i benderfyniad ynghylch y camau nesaf. | |
| **11.** | **Adrodd ar Berfformiad** | |
| **(a) adroddiad cyllid** | | |
| 11.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ei hadroddiad ar berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai. Esboniodd, er bod gan yr adroddiad sgôr oren a bod y sefyllfa ychydig yn llai ffafriol nag yr oedd yr un pryd y flwyddyn flaenorol, ei bod yn disgwyl i incwm wedi'i gyllidebu gael ei gyflawni er ei fod â phroffil gwahanol. | |
| 11.2 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **(b) cofrestr risg strategol** | | |
| 11.3 | Cyflwynodd yr EDCC ddiweddariad ynghylch y risgiau strategol allweddol a wynebir gan y sefydliad ac esboniodd mai ychydig iawn o | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | symud a fu ar y gofrestr a bod tri risg â sgôr weddilliol uchel yn parhau. Atgoffodd y Bwrdd:<br>• fod ei adolygiad risg blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod ar wahân ym mis Medi; a<br>• bod gwaith i adolygu'r map sicrwydd a'i alinio â'r gofrestr risg strategol yn mynd rhagddo. | |
| 11.4 | Trafododd y Bwrdd yn fyr ddiben ac amseriad ei adolygiad o'r gofrestr risg a nododd y canlynol:<br>• roedd yr adolygiad wedi'i amseru i gyd-fynd â'r dadansoddiad amgylcheddol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun blynyddol; a<br>• byddai'r adolygiad yn herio cynnwys, pwyslais a sail resymegol yr eitemau ar y gofrestr er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol ac yn gywir ac yn galluogi'r rheolwyr i ganolbwyntio ar y camau lliniaru. | |
| 11.5 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad ac fe'i sicrhawyd bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Nododd y Bwrdd hefyd fod yr adolygiad strategol ehangach o'r fframwaith sicrwydd a gynlluniwyd ar gyfer y misoedd nesaf wedi'i amseru'n dda i gyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth pum mlynedd. | |
| **12.** | **Strategaeth Amcangyfrif a Ffioedd** | |
| 12.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur, gyda cyflwyniad ategol, yn amlinellu'r amserlen a'r paramedrau arfaethedig ar gyfer paratoi Cynllun Amcangyfrif a Ffioedd 2022-23, a fyddai'n cael ei ystyried yn fanylach gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod ei dull gweithredu yn ystyried allbynnau'r adolygiad strategaeth ariannu a gynhaliwyd gyda'r Bwrdd ym mis Mai. | |
| 12.2 | Cytunodd y Bwrdd:<br>• I geisio newidiadau i elfennau o gyllid o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) mewn cysylltiad â gwaith lleol i roi mwy o hyblygrwydd ar gyfer cynnal astudiaethau cenedlaethol neu ranbarthol, gan nodi bod hyn yn debygol o fod yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn digolledu WCF drwy addasu ffrydiau arian ar gyfer cyrff a archwilir;<br>• yn rhan o'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i ystyried a ellid symud y cynnydd mewn pensiynau o WCF i ffioedd, gan nodi unwaith eto fod hyn yn debygol o fod yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn digolledu WCF drwy addasu ffrydiau arian ar gyfer cyrff a archwilir;<br>• pe na bai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull uchod, i ystyried a ellid rheoli triniaeth fewnol o'r cynnydd mewn pensiynau er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer y gwaith arall hwn; a<br>• manteision gweinyddol sicrhau cyllid WCF ar gyfer archwiliadau cynghorau tref a chymuned. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 12.3 | Trafododd y Bwrdd hefyd:<br>• a oedd yn ymarferol cymryd mwy o amser i ystyried llunio'r Amcangyfrif yng nghyd-destun cynllunio strategol; a<br>• phwysigrwydd sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael i ariannu'r broses o gyflawni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. | |
| 12.4 | Nododd y Bwrdd y cyfyngiad amser ar gyfer datblygu'r Amcangyfrif er mwyn sicrhau bod adnoddau ar gael i ariannu'r broses o gyflawni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a’i fod yn fodlon ar ba sail y byddai'r rheolwyr yn paratoi'r amcangyfrif ar y cyd, a'r cynllun ffioedd drafft ar gyfer 2022-23 i'w hystyried yn fanylach yn ei gyfarfod ym mis Medi. | |
| **13** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch** | |
| 13.1 | Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Busnes yr adroddiad blynyddol a thynnodd sylw at y canlynol:<br>• y gostyngiad cyffredinol mewn absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys gostyngiad o ran absenoldeb yn gysylltiedig â straen, gyda'r patrwm yn adlewyrchu'r ystadegau salwch cenedlaethol sy'n gysylltiedig â Covid-19;<br>• bod yr holl staff wedi defnyddio’r gofyniad statudol lleiaf o ran absenoldeb, ond bu cynnydd yn nifer y staff a oedd yn cario dros 15 diwrnod neu fwy ymlaen ac roedd yr adran Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda rheolwyr llinell i fonitro a rheoli absenoldeb;<br>• bod dull gweithredu gofalus yn cael ei ddefnyddio i ailagor y swyddfeydd wrth i'r cyfyngiadau lacio a bod disgwyl cynnydd mewn capasiti ym mis Awst, yn amodol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru sy'n parhau i gynghori y dylai pobl gael eu hannog o hyd i weithio gartref; a<br>• bod canlyniadau'r arolwg pwls yn dangos rhywfaint o welliant yn hwyliau'r staff, ond bod cyfran o'r staff a oedd yn teimlo bod ganddynt ormod o waith. | |
| 13.2 | Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Busnes fod ffigurau uwch o ran cario absenoldeb ymlaen yn cael eu monitro'n agos gan yr adran Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a byddai camau i fynd i'r afael â'r rhain yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn; fodd bynnag, llesiant staff oedd y pryder mwyaf yn y lle cyntaf. | |
| 13.3 | Nododd y Bwrdd fod absenoldeb oherwydd straen wedi lleihau, ac y byddai'n ddefnyddiol gweld y tueddiadau dros gyfnod hwy mewn sesiynau briffio yn y dyfodol. Cydnabu'r Bwrdd y gallai absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen gynyddu dros y flwyddyn i ddod pe bai lefelau cydnerthedd yn gostwng wrth i effaith hirdymor y pandemig gael ei theimlo. | |
| 13.4 | Nododd y Bwrdd y briff a chymeradwyodd adroddiad blynyddol y Pwyllgor. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **14** | **Y Diweddaraf o ran Cyfathrebu: adborth gan randdeiliaid** | |
| 14.1 | Croesawodd y Bwrdd Catrin Davies o Beaufort Market Research i'r cyfarfod. Esboniodd Catrin fod Beaufort wedi adolygu dull Archwilio Cymru o gasglu adborth gan randdeiliaid. Atgoffodd y Bwrdd o ddull gweithredu presennol Archwilio Cymru o gasglu adborth, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ac amlinellodd yr argymhellion ar gyfer dull gweithredu yn y dyfodol a oedd yn cynnwys:<br>• casglu data meintiol drwy arolwg a gynhelir yn annibynnol gyda'r holl randdeiliaid bob tair blynedd;<br>• cynnal arolwg omnibws neu banel gyda sampl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru i dracio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach o Archwilio Cymru; a<br>• chasglu data ansoddol drwy gyfweliadau manwl â rhanddeiliaid i archwilio'r canfyddiadau meintiol yn fanylach. | |
| 14.2 | Trafododd y Bwrdd, ac anogodd y rheolwyr i ystyried:<br>• a oedd yr adborth ar sail tair blynedd dreigl yn ddigonol, yn enwedig mewn cysylltiad â chyrff a archwilir;<br>• sut y gellid cael safbwynt sefydliadol ehangach gan gyrff a archwilir;<br>• sut y byddai'r rhaglen yn cyd-fynd â'r strategaeth pum mlynedd ac yn cyfrannu ati;<br>• sicrhau bod diben ymgysylltu â rhanddeiliaid yn glir mewn cysylltiad â swyddogaeth ehangach Archwilio Cymru;<br>• manteision posibl ymgysylltu ag ystod estynedig o randdeiliaid, megis sefydliadau'r trydydd sector, i ddeall effaith Archwilio Cymru ar y corff a archwilir;<br>• sut i gael y gwerth gorau o arolygon ar-lein ac omnibws; a<br>• sut y gallai corff annibynnol gymhathu dealltwriaeth ddigonol o'r sefydliad a'i waith i gynnal trafodaethau ansoddol effeithiol. | |
| 14.3 | Cydnabu'r Bwrdd werth casglu amrywiaeth o adborth, gan groesawu cynnwys y cyhoedd yn rhanddeiliaid, ac archwilio'r adborth hwnnw'n fanylach, ac y gallai dull annibynnol roi cyfle i fwy o adborth gael ei fynegi'n agored. Fodd bynnag, byddai'n bwysig ystyried amseriad y gwaith a sicrhau eglurder o ran diben. | |
| 14.4 | Diolchodd yr EDCC i'r Bwrdd am ei gyfraniad, y byddai'n ei ystyried wrth ddatblygu cynnig i'w ddwyn i gyfarfod diweddarach. | EDCC |
| **15** | **Unrhyw fusnes arall** | |
| 15.1 | Nid oedd unrhyw fusnes arall. | |
| **16** | **Adolygiad o'r flaenraglen waith** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 20 a Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 16.1 | Nododd y Bwrdd ei raglen waith dros dro. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu amseroedd cyfarfodydd a dyddiadau i sicrhau na fyddai gwrthdaro o ran presenoldeb y Cadeirydd ac ACC ym Mhwyllgorau'r Senedd. | KD |
| **17** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 17.1 | Nododd y Cadeirydd y bu'n gyfarfod arbennig o hir, gydag agenda sylweddol, a diolchodd i bawb am eu hamynedd a'u cyfraniadau cadarnhaol. | |
| **20** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 20.1 | 21 a 22 Medi 2021 | |